CYMDEITHAS AMAETHYDDOL FRENHINOL CYMRU

## Digwyddiad Glaswelltir a thail Cynaliadwy

Sioe'r Cardis

CAFC · RWAS

1904

2024

# Ceredigion 2024





**30ain o Fai 2024 ar Fferm Prifysgol Aberystwyth Trawsgoed**



**Plotiau arddangos, cyfleodd noddi, hysbysebu a stondinau masnach ar gael**




YMHOLIADAU

www.cafc.cymru/digwyddiadglaswelltir/

ceredigion2024rwassustainablegrassandmuckevent

info@royalwelshgrasslandevent.com

rwasgrassland2024

Germinal
Sowing future seeds

DeLaval



## Cyflwyniad

Trwy garedigrwydd Prifysgol Aberystwyth yr ydym yn falch o gadarnhau y bydd digwyddiad Glaswelltir a Thail Cynaliadwy Sioe Frenhinol Cymru 2024 yn cael ei gynnal ar Fferm Prifysgol Aberystwyth, Trawscoed.

Trefnir y digwyddiad gan aelodau Sir nawdd CAFC Ceredigion 2024.

Bydd y digwyddiad yn ymestyn dros 150 erw a bydd yn gyfle arddangos ardderchog i ddarparwyr peiriannau glaswelltir a thechnolegau cysylltiedig. Bydd y digwyddiad yn darparu cyfleoedd arddangos offer glaswellt a thail byw yn y cae a'r clamp gyda phwyslais ar gynaliadwyedd.

Mae gennym gyfleoedd ar gael ar gyfer:-
Plotiau Treialu Porthiant
Arddangosiadau offer yn y cae a'r clamp
Arddangosiadau slyri/tail
Stondinau masnach
Noddi  a hysbysebu

I archebu un o'r pecynnau canlynnol gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r ffurflen gais sydd ar ein gwefan.

Ar gyfer pob ymholiad arall, cysylltwch â:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Mr Wyn Evans | 07817 592411 |
| Ysgrifennyddes | Mrs Eleri James | 07976 100043 |
| Trysorydd | Mrs Rhian Davies | 07751 789865 |

Os oes gennych ddiddordeb yn ein cefnogi, nodwch dyddiadau cau y ceisiadau

| | |
|---|---|
| Plotiau arddangos Porthiant | 30/05/2023 |
| Arddangosfeydd Peiriannau | 30/01/ 2024 |
| Stondinau Masnach, noddi a hysbysebu | 30/01/2024 |



# Pecynnau Noddi

Rydym yn falch o allu cynnig y pecynnau nawdd canlynol i arddangoswyr a masnachwyr.

**Pecyn Aur**
**£4000.00**
Stondin masnach 9m amlwg
5m x 1.2m lleoliad baner
Tudalen llawn proffil Noddwyr
Hysbyseb tudalen llawn lliw yng nghylchgrawn y dydd
Hysbyseb annerch cyhoeddus drwy gydol y dydd
Hysbyseb cyn ac yn ystod y digwyddiad ar ein gwefan a gweithgaredd Cyfryngau Cymdeithasol
Caniatâd i dynnu lluniau cyhoeddusrwydd yn ystod y digwyddiad
Caniatâd i ddefnyddio 'Noddwr Aur digwyddiad Glaswelltir Brenhinol Cymru 2024' ar hysbysebu
20 x tocyn mynediad
20 x tocyn bwyd



**Pecyn Arian**
**£2000.00**
Stondin masnach 6m amlwg
5m x 1.2m lleoliad baner
Hysbyseb tudalen llawn lliw yng nghylchgrawn y dydd
Hysbyseb cyn ac yn ystod y digwyddiad ar ein gwefan a gweithgaredd Cyfryngau Cymdeithasol
Caniatâd i dynnu lluniau cyhoeddusrwydd yn ystod y digwyddiad
Caniatâd i ddefnyddio 'Noddwr Arian digwyddiad Glaswelltir Brenhinol Cymru 2024' ar hysbysebu
9 x tocyn mynediad
9 x tocyn bwyd



**Efydd**
**£1000.00**

Stondin masnach 6m amlwg
5m x 1.2m lleoliad banner
Hysbyseb 1/2 tudalen lliw yng nghylchgrawn y dydd
Gweithgaredd Cyfryngau Cymdeithasol
Caniatâd i ddefnyddio 'Noddwr Efydd digwyddiad Glaswelltir Brenhinol Cymru 2024' ar hysbysebu
4 x admission tickets
4 x luncheon tickets



www.royalwelshgrasslandevent.com

# Arddangosiadau hadau yn y cae, arddangosfeydd peiriannau yn y cae ac yn y clamp.



## Pecyn arddangosfa hadau yn y cae

Rydym yn falch o allu cynnig nifer o gaeau o wahanol feintiau, gyda'r mwyaf yn 30 erw. Bydd arddangosfeydd hadau yn cael eu cynnal ar sail y cyntaf i'r felin yn unig.

Os hoffech chi fanteisio ar y pecyn hwn mae'n ofynnol i chi brynu pecyn Noddwr Efydd. Os dymunir bydd cyfle gennych i uwchraddio i becynnau noddi Arian neu Aur.



## Arddangosiad peiriannau ac offer yn y cae

£400.00/erw

Rydym yn gallu cynnig plotiau arddangos o wahanol feintiau, gyda'r cae mwyaf yn 30 erw.

- Y tâl am blot arddangos fydd £400.00/erw.
- Torri (gweler yr amodau) Er mwyn hwyluso a chreu mân diogel i'r cyhoedd i wylio'r araddangosfa bydd cyfran o'r cae yn cael ei dorri o flaen llaw.
- Bydd amser arddangos yn y clamp yn cael eu benderfynnu yn ôl maint y plot arddangos a brynwyd.
- 2 docyn mynediad am ddim am bob erw o dir arddangos a brynwyd.
- 2 docyn cinio wedi'u rhoi am ddim am bob erw o faes arddangos a brynwyd.
- Cyfle i flaenoriaethu lleoliad plot os prynir pecyn nawdd

## Arddangosiad offer yn y Clamp

Mae'r tâl am amser arddangos wedi'i gynnwys ym mhris y plot a bydd amser yn cael ei ddyrannu pro-rata.
Fodd bynnag, os nad ydych am arddangos yn y maes, bydd trefniadau a ffî yn cael eu cadarnhau ar ôl y dyddiad cau.
Bydd angen i bob arddangoswr silwair ddefnyddio ychwanegyn silwair a ddarparwyd gan Volac




## Arddangosiadau slyri a thail

Rydym yn falch o allu cynnig ystod o wahanol feintiau lleiniau ar sail y cyntaf i'r felin.
Y tâl am blot arddangos fydd £250.00 yr erw a dyrennir amser pro-rata**.**
Yn gynwysedig yn y pecyn mae 2 docyn am ddim i arddangoswyr fesul erw o dir arddangos a brynwyd.
Cyfle i flaenoriaethu lleoliad plot os prynir pecyn noddi.

# Cyfleoedd Stondinau Masnach



Rydym yn falch o allu cynnig cyfleoedd stondinau masnach ar y maes
ac yn yr awyr agored (Pabell fawr)
Sylwch na fydd unrhyw drydan yn cael ei gyflenwi i stondinau
masnach awyr agored na Dan Do

| Lleoliad | Hyd yr blaen (M) | Lled Metrau | Cost | Tocynnau Arddangoswyr |
|---|---|---|---|---|
| Tu-allan | 6 | 9 | £400 | 4 |
| Tu allan | 9 | 9 | £500 | 6 |
| Tu allan | 12 | 9 | £600 | 8 |
| Tu fewn | 3 | 3 | £250 | 2 |
| Tu fewn | 6 | 3 | £350 | 4 |



# Cyfleodd Hysbysebu

5 x 1.2 m banner ar y safle £50.00
Hysbyseb tudalen llawn lliw ar gefn tu allan y cylchgrawn (un yn unig ar gael) £500
Hysbyseb lliw tudalen lawn ar glawr tu fewn neu clawr cefn tu fewn £250.00
Hysbyseb lliw tudalen lawn yn llyfryn y dydd £125.00
Hysbyseb 1/2 tudalen lliw yn llyfryn y dydd £75.00



Sioe'r Cardis
C A F C · R W A S
1904
2024

# Telerau ac Amodau

Bydd angen i bob arddangoswr a stondinwyr masnach gwblhau a chyflwyno ffurflen Asesu Risg ar-lein.

- Ni fydd Digwyddiad Glaswelltir Brenhinol Cymru yn gyfrifol am unrhyw ddamwain, difrod neu golled i unrhyw arddangoswr, eitemau neu eiddo a ddaw i'r safle
- Ni fydd Digwyddiad Glaswelltir Brenhinol Cymru yn gyfrifol am unrhyw weithredoedd na threuliau o ganlyniad i unrhyw ddifrod neu anaf a achosir
- Rhaid i bob arddangoswr gael yswiriant Atebolrwydd Trydydd Parti Llawn. Bydd angen dangos tystysgrif cyfredol yn ystod y digwyddiad.
- Mae pob arddangoswr yn indemnio Digwyddiad Glaswelltir Brenhinol Cymru rhag unrhyw hawliadau a wneir mewn cysylltiad â staff, offer, arddangosfa neu gerbydau'r arddangoswr
- Bydd penderfyniadau terfynnol y Pwyllgor Trefnu Digwyddiad Glaswelltir a Thail Cynaliadwy Brenhinol Cymru yn seiliedig ar ddehongliad yr amodau hyn.
- Manylir ar delerau penodol, ychwanegol isod



## Arddangoswyr offer yn y cae a'r clamp

Yn ychwanegol at y telerau ac amodau cyffredinol, rhaid i'r arddangoswyr, arddangos offer yn y cae neu'r clamp gytuno i'r canlynol:

- Bydd dyraniad y plot yn cael ei gwblhau ar ôl i'r dyddiad cau basio.
- Ar gyfer cyhoeddusrwydd ac argraffu, dylai arddangoswyr ddarparu amserlen arddangos.
- Er mwyn cynorthwyo'r broses edwino, rhaid torri pob plot arddangos 1-2 ddiwrnod ymlaen llaw. Cyfrifoldeb y cwmnïau sy'n arddangos yn y digwyddiad yw trefnu torri silwair o flaen llaw
- Er mwyn hwyluso gydag arddangosiadau torri silwair, bydd ardal ar wahân o fewn yr un cae ar gael cael i bob arddangoswr.
- Bydd pentiroedd, sy'n ffurfio rhan o'r cae, yn cael eu torri cyn y digwyddiad i hwyluso man gwylio i'r cyhoedd
- Bydd arddangoswyr plot yn darparu eu system cyfeiriad cyhoeddus eu hunain.
- Bydd mynediad ar gyfer paratoi'r Plot Arddangos fel a ganlyn: o 9.00yh i 5.00yh ddydd Mawrth 28 Mai 2024 ac o o 9.00yb i 7.00yh dydd Mercher 29ain 2024.
- Rhaid symud yr holl eitemau a cherbydau nad ydynt yn rhai arddangos oddi ar y safle erbyn 8.00yb ar ddiwrnod y digwyddiad i'r maes parcio dynodedig.
- Ni ddylid symud eitemau arddangos o'r safle tan ar ôl 18:00yh ar ddiwrnod y digwyddiad





# Stondinau Masnach

IYn ogystal â'r Telerau ac Amodau Cyffredinol, mae arddangoswyr Stondinau Masnach yn cytuno i'r canlynol:

- Bydd mynediad ar gyfer paratoi'r Stondinau Masnach rhwng 9.00yb a 7.00yh ddydd Mercher 29 Mai 2024 ac o 7:00yh ar y diwrnod.
- Rhaid i bob stondin fod ar y safle erbyn 8:00yb ar y diwrnod a rhaid symud cerbydau oddi ar y safle erbyn 8.00yb i'r maes parcio dynodedig.
- Ni ddylid symud stondinau masnach o'r safle tan ar ôl 5:00yh ar ddiwrnod y digwyddiad.
- Rhaid i staffio stondinau masnach fod yn barhaus rhwng 10.00yb a 5.00yh ar y diwrnod.
- Ni chaniateir i unrhyw berson ac eithrio arddangoswr sydd wedi gwneud cais am le a neilltuwyd i werthu neu arddangos erthyglau o unrhyw ddisgrifiad ar y wefan. Ni chaniateir is-osod standiau.
- Ni chaniateir i unrhyw arddangoswr drefnu eu stondin masnach na gosod eu harwyddion mewn modd a fyddai'n rhwystro'r golau neu'n achosi anghyfleustra neu'n effeithio'n anfanteisiol ar arddangoswr arall. Ni chaniateir unrhyw ymyrraeth i safleoedd cyfagos.
- Bydd yr holl stondinau masnach dan do wedi'u lleoli o fewn pabell fawr. Bydd stondinau masnach awyr agored yn cael eu lleoli ar laswellt. Rhaid i arddangoswyr sydd â'u pebyll mawr eu hunain roi tystysgrif gwrth-dân i'r trefnydd a rhoi gwybod a oes angen iddynt gloddio tyllau. Rhaid adfer yr holl dir yn llwyr wrth symud stondinau masnach.
- Rhaid i arddangoswyr gael diffoddwr tân ar eu stondin masnach.
- Bydd arddangoswyr yn gyfrifol am symud sbwriel o'u stondin masnach
- Ni ddarperir Byrddau a Chadeiriau

***Bydd cyfleusterau arlwyo ar gael drwy gydol y dydd ar y safle*








Sioe'r Cardis

CAFC RWAS 1904

2024

# Sioe'r Cardis

CAFC • RWAS

1904

2024